# Cynllun Iaith Gymraeg
# Cyngor Bro Morgannwg

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2013-14

**Cyflwyniad**

Cafodd Cynllun Iaith cyfredol y cyngor ei gymeradwyo ym Mawrth 2012, ac y mae'n egluro ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar sail bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd â'i gilydd. Rydym wedi dechrau rhoi'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar waith, ac y mae manylion am hyn a sylwadau ar y cynnydd a wnaethpwyd ym mhob maes wedi'u cynnwys yma. Cafodd y cynllun ei adolygu'n rheolaidd a thîm Cydraddoldeb sy'n cyd-drefnu'r broses o'i weithredu. Cafodd camau gweithredu eu hymgorffori mewn cynlluniau gwasanaeth adrannol sy'n rhan annatod o fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro bob chwarter gan bwyllgorau craffu'r cyngor.

Yn unol â Mesur y Gymraeg 2011, y mae'r cyngor wedi cwblhau holiadur manwl ynglŷn â'r Safonau Cymraeg a gynigiwyd, ac yn aros am yr hysbysiad cydymffurfio.

Cafodd arolwg sgiliau Cymraeg ei gynnwys mewn holiadur a anfonwyd yn ddiweddar at bob aelod o staff, ac y mae'r canlyniadau wedi'u cofnodi ar system Oracle. Byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu gwybodaeth am sgiliau rhai sy'n ymgeisio am swyddi yn y cyngor.

Yn y cyfamser, y mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg ei staff. Saith aelod o staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn cynnig sesiynau wythnosol yn rhad ac am ddim ers tri mis bellach sydd wedi profi'n hynod boblogaidd a llwyddiannus. Bydd te a choffi ar gael yn ystod yr awr ginio a bydd cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol. Mae nifer o staff wedi defnyddio'r sesiynau hyn fel cam i gyrsiau ffurfiol ac y mae rhai eraill yn parhau i'w mynychu er mwyn ymarfer eu sgiliau.

Mae tîm Cydraddoldeb yn parhau i gydweithio'n agos â thîm Cymraeg i Oedolion er mwyn annog rhagor o staff i ymuno â chyrsiau ffurfiol. Bydd Canolfan Ddysgu i Oedolion Y Barri'n neilltuo un noson yr wythnos ar gyfer gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn hyn.

Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos â Thîm Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd er mwyn cynnal grwpiau ffocws a datblygu cynllun monitro gyda siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Ar ôl sefydlu Menter Bro Morgannwg yn ddiweddar, y mae gobaith y bydd mwy o adnoddau ar gyfer datblygu gweithgareddau'r tu allan i oriau ysgol a gweithgareddau eraill ar gyfer oedolion yn y Fro.

Mae Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae ar y cyd â'r Urdd wedi parhau i ddatblygu a darparu chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Swyddog 5x60 sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, am sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol allgyrsiol ac yn y gymuned. Mae'n dod i ben â hyn drwy greu cyfleoedd newydd a chyfeirio pobl ifanc at y ddarpariaeth sydd ar gael eisoes mewn clybiau cymunedol a chanolfannau hamdden a datblygu'r ddarpariaeth honno. Mae'r gweithgareddau 5x60 a gynigir yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn cynnwys Ioga, pêl fasged, Swmba, pêl-droed, rygbi, osgoi'r bêl, badminton, dawns stryd, tennis bwrdd a golff.

58% (398) o ddisgyblion Ysgol gyfun Bro Morgannwg a gymerodd ran yng ngweithgareddau cynllun 5x60 yn ystod y cyfnod academaidd rhwng Medi 2012 ac Awst 2013. Cymerwyd rhan mewn gweithgareddau 5x60 5019 o weithiau, ac yr oedd menywod yn cyfrif am 2000 o'r rheiny.

Roedd 455 o ddisgyblion Ysgol y Fro wedi cwblhau'r Arolwg Chwaraeon Ysgolion yn ystod tymor yr haf, 2013. Mae hyn yn golygu bod gennym adroddiad ysgolion ar gyfer Bro Morgannwg sy'n dangos ffactorau fel:

- y nifer sy'n mynychu clybiau allgyrsiol a chlybiau yn y gymuned;
- agwedd disgyblion tuag at addysg gorfforol a chwaraeon;
- y gweithgareddau y bydd disgyblion yn eu dilyn ar hyn o bryd a'r rhai yr hoffent eu dilyn;
- yr hyn sy'n rhwystro disgyblion rhag cymryd rhan.

Mae'r swyddog 5x60 yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cynllunio gweithgareddau yn y dyfodol a byddwn hefyd yn ei thrafod â staff addysg gorfforol a staff eraill yn yr ysgol.

Rydym yn gobeithio y bydd mwy o ddisgyblion nag erioed yn cymryd rhan yng ngweithgareddau 5x60 y tymor academaidd hwn, ac y mae'r ystadegau ar gyfer y

tymor cyntaf eisoes yn galonogol (35% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Bro Morgannwg). Bu ymgais i ddenu mwy o ferched o blith siaradwyr Cymraeg Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i gymryd rhan y tymor hwn, a gwelwyd bod 43% o ferched yr ysgol yn dilyn gweithgareddau 5x60 yn ystod tymor yr hydref.

Bu ymgais hefyd i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer arweinwyr, a 33 o ddisgyblion a fu'n mynychu'r cyrsiau arwain a'r cyrsiau 'Pobl Ifanc Heini' a oedd yn cael eu rhedeg ar y cyd gan y tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae a'r Urdd. Y gobaith yw y bydd y disgyblion hyn bellach yn helpu i ddarparu a threfnu gweithgareddau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y canllawiau ar gyfer hyfforddiant a chyhoeddiadau Cymraeg eu symleiddio er mwyn i swyddogion ddod i wybod eu dyletswyddau o dan y Cynllun Iaith. Mae hyn wedi helpu rheolwyr i dargedu aelodau o'u timau ar gyfer hyfforddiant a deall pryd y dylid cyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog.

Mae tudalennau Cymraeg ar gael ar fewnrwyd y cyngor er mwyn rhoi gwybod i staff am unrhyw ddatblygiadau Cymraeg yn y gweithle. Cyhoeddir dogfennau canllaw ar y tudalennau hyn yn ogystal â Chynllun Iaith, adroddiadau a Chanllaw Cyhoeddiadau'r cyngor.

Bydd y cyngor yn cyflogi cyfieithydd rhan-amser ar gyfer y we a chyfieithydd cyffredinol amser llawn.

Gweithiwyd yn galed er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am etholiadau a ffurflenni ar-lein yn gwbl ddwyieithog. Byddwn yn cysylltu'n amlach â defnyddwyr y wefan Gymraeg er mwyn dod i wybod eu hanghenion ar hyn o bryd ac unrhyw anghenion newidiol fel y cawn barhau i ddatblygu.

Mae cywirdeb cyfieithu o'r pwys mwyaf gan bawb yn y cyngor wrth drosi dogfennau i'r Gymraeg, a bydd pob dogfen yn cael ei chyfeirio'n uniongyrchol at y cyfieithydd cyffredinol yn nhîm cyfathrebu Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid. Cafodd rhyw 400 o ddogfennau eu trosi gan y cyfieithydd cyffredinol hyd yn hyn eleni, gan gynnwys llythyrau, ffurflenni, hysbysiadau cyhoeddus a chyhoeddiadau'r cyngor. Mae'r cyngor wedi dod â chyfieithydd y we a'r cyfieithydd cyffredinol ynghyd a phrynu meddalwedd er mwyn gwella cynhyrchiant. Rydym wedi cyfrannu at ddarpariaeth o wybodaeth ar gyfer gwasanaeth cyfieithu i Gymru gyfan, ac yn aros i glywed oddi wrth Lywodraeth Cymru am unrhyw ddatblygiadau.

## 1. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CIG 62 | | Cyhoeddi a hyrwyddo'r Strategaeth Sgiliau Iaith. | Codi ymwybyddiaeth staff. | Cwblhawyd; mae'r cynllun wedi cael ei weithredu a'i hyrwyddo. |
| CIG 63 | | Datblygu a gweithredu Strategaeth Datblygiad a Hyfforddiant Cymraeg. | Mae hyfforddiant teilwredig ar gael ac yn cael ei fonitro. | Mae'r strategaeth wedi'i hadolygu ac yn barod i'w gweithredu. |
| CIG 64 | | Hyrwyddo a chyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg. | Mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. | Cwblhawyd; defnyddir y Cynllun Iaith yn aml fel sylfaen ar gyfer ateb ceisiadau. Byddwn yn tynnu unrhyw wybodaeth ar gyfer y cyhoedd nad yw'n ddwyieithog ac yn anfon cwyn at y swyddog sy'n gyfrifol. |
| CIG 65 | | Sicrhau bod gwybodaeth am sgiliau ieithyddol pob aelod o staff yn cael ei chasglu. | Ceir gwybodaeth allweddol am sgiliau staff. | Rydym yn disgwyl am ganlyniad archwiliad a gynhaliwyd yn ddiweddar. |
| CIG 66 | | Sicrhau bod arwyddion a bathodynnau i'w gweld yn amlwg mewn derbynfeydd. | Bydd trigolion yn teimlo bod croeso iddynt siarad Cymraeg pan fyddant yn ymweld â safleoedd y Cyngor. | Cwblhawyd; mae arwyddion i'w gweld mewn mannau amlwg ym mhob derbynfa a bydd siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynnau. |
| CIG66 7 | | Sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg ar gael yn y ganolfan gyswllt. | Caiff defnyddwyr y Gymraeg wybodaeth a gwasanaethau yn eu dewis iaith. | Cwblhawyd; Mae chwech o'r 35.5 cynrychiolydd gwasanaeth cwsmeriaid yn y ganolfan gyswllt yn siarad Cymraeg. |
| CIG 68 | | Trefnu i'r holl ffurflenni ar-lein a gwybodaeth am etholiadau gael eu cyfieithu. | Mae trefniadau ar gyfer etholiadau'n ddwyieithog. | Cwblhawyd. |
| | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CIG 69 | | Sicrhau bod gan staff sy'n siarad Cymraeg droedynnau e-bost dwyieithog. | Mae trigolion yn gwybod pa bryd y cânt ateb yn Gymraeg. | Cwblhawyd. Mae gan bob siaradwr Cymraeg arwydd 'Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg' |
| CIG 70 | | Sicrhau bod deg tudalen fwyaf poblogaidd y we'n gwbl ddwyieithog. | Mae rhannau mwyaf poblogaidd y wefan ar gael yn Gymraeg. | Cwblhawyd; dyna sy'n arferol erbyn hyn. |
| CIG 71 | | Sicrhau bod newyddion cyfoes, gwybodaeth ddiweddaraf a swyddi'n cael blaenoriaeth wrth gyfieithu ar gyfer y we. | Bydd elfennau pwysicaf y wefan yn cael eu cyfieithu'n gyflym. | Cwblhawyd; dyna sy'n arferol erbyn hyn. |
| CIG 72 | | Adolygu'r cynnwys Cymraeg ar y wefan. | Drwy gadw golwg rheolaidd ar y cynnwys cawn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gywir. | Cwblhawyd; dyna sy'n arferol erbyn hyn. |
| CIG 73 | | Adolygu'r disgrifiadau swyddi a'r manylebau personol ar gyfer staff derbynfeydd a'u newid ar gyfer staff newydd i gynnwys gallu yn y Gymraeg. | Gall rheolwyr ddarparu cyfleusterau Cymraeg mewn meysydd rheng flaen. | Cwblhawyd. |
| CIG 74 | | Helpu aelodau etholedig i hysbysebu a gwella eu sgiliau. | Mae trigolion yn gwybod pa aelodau sy'n siarad Cymraeg. | Cynhaliwyd 4 sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig yn Ebrill a Mai 2013. Y Grŵp Annibynnol, Adnoddau Corfforaethol (Craffu) ac aelodau o'r Cabinet a Phlaid Cymru a fu'n dilyn y sesiynau hyn. Mae rhai aelodau etholedig wedi cofrestru ar gyfer dysgu Cymraeg. |
| CIG 46 | | Sefydlu 'ffair swyddi' ar y cyd â Choleg Y Barri ac Ysgol Bro Morgannwg er mwyn denu ymgeiswyr a chanddynt sgiliau Cymraeg a hybu profiad gwaith sy'n gofyn am y sgiliau hynny. | Mae sgiliau staff yn adlewyrchu'r angen sydd ar y gwasanaeth am ddarparu gwasanaethau dwyieithog. | Byddwn bellach yn cysylltu ag Ysgol Bro Morgannwg. Cynhelir cyfarfod maes o law er mwyn trafod ffeiriau swyddi a swyddi posibl yn ogystal â phrofiad gwaith ar gyfer rhai sy'n ymadael â'r ysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| CIG 75 | | Darparu canllawiau ar gyfer swyddogion sy'n cydweithio â phartneriaid. | Mae swyddogion yn ymwybodol o ymrwymiad y Cyngor i'r Iaith Gymraeg. | Cwblhawyd. |
| CIG 76 | | Sicrhau bod y Strategaeth Adnoddau Dynol a Chynllun y Gweithlu'n gydnaws â'r Strategaeth Sgiliau Iaith. | Prif ffrydio'r Strategaeth Sgiliau Iaith fel rhan o'r gwaith cynllunio gweithlu. | Cwblhawyd. |
| CIG 77 | | Adolygu iaith disgrifiadau swydd dwyieithog er mwyn sicrhau eu bod yn eglur i siaradwyr Cymraeg. | Defnyddio Cymraeg Clir mewn disgrifiadau swydd. | Bydd y Cyfieithydd cyffredinol yn cofnodi unrhyw geisiadau am ddisgrifiadau swyddi ac yn cydweithio â'r Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol. |
| CIG 78 | | Egluro faint o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer swyddi penodol. | Mae'n eglur pa lefel o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer pob rôl. | Bydd y Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol yn edrych ar bob hysbysiad newydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CIG 79 | | Rhoi ymgyrch newydd 'Mae gen ti ddewis' ar waith er mwyn annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o linell Gymraeg y Ganolfan Gyswllt. | Mae'r llinell Gymraeg yn cael ei hysbysebu ac y mae mwy o ymwybyddiaeth a defnydd o'r gwasanaeth o ganlyniad. | Ni lwyddwyd i gael nawdd ar gyfer y prosiect hwn hyd yn hyn. |
| CIG 80 | | Rhoi hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i staff allweddol yn gyson a hefyd gyfle iddynt ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol. | Mae staff yn ymwybodol o faterion Cymraeg ac yn gallu gwella eu sgiliau. | Mae sesiynau Cymraeg anffurfiol yn cael eu cynnal ers y llynedd. |
| CIG 81 | | Meithrin perthynas weithio drefnus â Menter y Fro er mwyn helpu i ddatblygu'r iaith yn enwedig ym maes hamdden ac wrth ymdrin â phreifateiddio. | Bydd mwy o gymorth i ddysgwyr a thrigolion. | Mae'r cyngor yn cydweithio â menter newydd - 'Menter Bro Morgannwg' - er mwyn sicrhau bod mwy o gyfleoedd yn y Fro ar gyfer siaradwyr Cymraeg. |
| CIG 82 | | Cynnwys materion Cymraeg mewn hyfforddiant ar gyfer recriwtio a dewis staff. | Bydd rheolwyr yn ymwybodol o ofynion y Strategaeth Sgiliau Iaith | Cwblhawyd. |
| CIG 83 | | Dylunio a dosbarthu cronfa ddata y medr adrannau ei defnyddio ar gyfer cofrestru unigolion a sefydliadau sydd am gyfathrebu â'r cyngor yn Gymraeg. | Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r trigolion sydd am ymwneud â'r cyngor yn Gymraeg. | Ni chafodd ei gwblhau hyd yn hyn – caiff ei ddwyn ymlaen. |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CIG 6 (yn gyfredol) | | Archwilio cyhoeddiadau, dogfennau a chyhoeddusrwydd y cyngor. | Bydd rheolwyr yn cydymffurfio â Chynllun Iaith y cyngor. | Oherwydd ad-drefnu, y mae'r archwiliad hwn wedi'i ohirio tan Fedi 2014. |
| CIG 7 (cf) | | Mae staff y ganolfan gyswllt yn ymwybodol o ddewis iaith cwsmeriaid ac yn trosglwyddo'r wybodaeth honno i staff swyddfa gefn. | Bydd cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn cael derbyn gwybodaeth yn eu dewis iaith. | Rhagfyr 2013. Bydd yn rhan o'r safonau newydd. |
| CIG 9 (cf) | | Archwilio dogfennau strategol newydd bob blwyddyn er mwyn asesu'r graddau y llwyddwyd i gyflawni amcanion y Cynllun Iaith. | Bydd pob dogfen strategol yn cael ei chyfieithu fel y bo'n briodol. | Cafodd hyn ei gwblhau a'i roi i gyfieithydd y we ym mis Ionawr. Byddwn yn ei adolygu'n rheolaidd. |
| CIG 83 | | Darparu gwybodaeth am sgiliau iaith ar gyfer yr adroddiad monitro blynyddol | Cyflwynir data i Fwrdd yr Iaith Gymraeg bob blwyddyn. | Cwblhawyd. |
| CIG 84 | | Monitro cynlluniau gwasanaeth er mwyn sicrhau bod camau sy'n ymwneud â Chynllun Cydraddoldeb y Fro a'i dargedau'n cael eu gweithredu'n effeithiol. | Bydd camau gweithredu Cymraeg yn cael eu monitro wrth fonitro cynlluniau gwasanaeth. | Mehefin 2014 |
| CIG 85 | | Adolygu fformat presennol hysbysebion swyddi er mwyn cynnwys mwy o ddeunydd dwyieithog. | Bydd mwy o gynnwys dwyieithog mewn hysbysebion. | Ni lwyddodd ein tîm adnoddau dynol i ddod i ben â hyn hyd yma, er iddo gael ei atgoffa. Caiff ei gynnwys yn nhrefn y safonau newydd. |

## 2. Gwasanaethau Cymraeg Rheng Flaen

### Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Dengys Cynllun Strategol Addysg Gymraeg y cyngor fod addysg Gymraeg yn ffynnu yn y Fro er bod yr ardal mor eang ac amrywiol. Mae'r galw cynyddol yn amlwg yn ôl y ddwy ysgol Gymraeg newydd sydd wedi'u sefydlu.

Mae Grŵp Cynllun Strategol Addysg Gymraeg yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol adrannau o'r cyngor, ysgolion a sefydliadau Cymraeg lleol. Mae wedi llunio cynllun gweithredu er mwyn ymdrin â blaenoriaethau strategol addysg gan gynnwys rhai yng nghynllun y Bartneriaeth sy'n 'meithrin gweithlu dwyieithog' ac yn 'cefnogi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg'. Mae hyn yn gofyn am sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael dysgu sgiliau sy'n brin yn y gweithlu, a bod plant a phobl ifanc yn gwybod bod hawl iddynt ddefnyddio'r iaith wrth ddilyn gweithgareddau a manteisio ar wasanaethau a'r ddarpariaeth.

Enghreifftiau: datblygu darpariaeth ieuenctid dwyieithog ddwy noson yr wythnos yn y Gwasanaeth Ieuenctid; cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy'n pontio rhwng blwyddyn 6 a blwyddyn 7; datblygu fforwm ieuenctid Cymraeg; noddi datblygiad gweithgareddau chwaraeon ar y cyd â'r Urdd. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn cydweithio â'r Urdd er mwyn darparu hyfforddiant ar gyfer siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg fel ei gilydd fel rhan o'r cwricwlwm, gan gynnwys cyrsiau Rhwydwaith Coleg Agored a hyfforddiant radio ysgol.

Ar lefel unigol, bydd pob aelod o'r Bartneriaeth yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw teilwng yn ei holl gynlluniau a datblygiadau.

### Gallu i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael mewn prif dderbynfeydd, canolfannau cyswllt a siopau-un-stop.

35.5 o gynrychiolwyr gwasanaeth cwsmeriaid sy'n gweithio yn y ganolfan gyswllt gan gynnwys 6 atebwr galwadau rheng flaen a thri aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer gweithio mewn derbynfa. Gallwn gynnig pob gwasanaeth canolfan gyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wrthi'n recriwtio rhagor o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd a byddwn yn dod i ben â hynny yn ystod chwarter cyntaf 2014/15.

Mae un rhif ffôn cyhoeddus ar gyfer cysylltu â'r cyngor sy'n cael ei hysbysebu'n ddwyieithog. Mae'n cynnwys llinell Gymraeg benodol sy'n golygu bod gan bawb sy'n ffonio'r cyngor ddewis i drafod ei ymholiad yn y Gymraeg os myn. Bydd pob galwad sy'n cael ei derbyn ar y llinell Gymraeg yn cael ei chyfeirio at siaradwr Cymraeg. Bydd aelod o staff ar gael i ateb galwadau ar y llinell honno rhwng 8.00am a 6.00pm yn unol ag oriau agor y ganolfan gyswllt. Gall y ganolfan gyswllt ateb negeseuon e-bost a thestun yn ogystal â galwadau ffôn yn Gymraeg.

Yn ystod 2013/14 cafodd ychydig dros 1,300 o alwadau eu hateb a'u trin yn Gymraeg. Mae'r cyngor yn ffyddiog y gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o ymholiadau yn ystod un alwad yn unig heb orfod trosglwyddo'r galwr i unrhyw adran arall o'r cyngor. Cawsom ymateb calonogol iawn i'r gwasanaeth Cymraeg gan y cyhoedd Cymraeg ei iaith. Serch hynny, byddwn yn derbyn llai o alwadau Cymraeg a Saesneg erbyn hyn wrth i fwy o bobl ddewis cysylltu â ni drwy neges testun neu e-bost..

**Safonau Gwasanaethu**

Cafodd trefn gwyno'r cyngor ei hasesu gan Fwrdd yr Iaith yn (Ionawr 2009) a chanfuwyd ei bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion. Bydd cwynion yn cael eu cofnodi un ai ar system cysylltiadau cwsmeriaid y cyngor ynteu gan adrannau. Tîm cydraddoldeb sy'n gyfrifol am gofnodi a monitro unrhyw gwynion sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynllun Iaith. Mae rhestr gwynion a'r camau a gymerwyd er mwyn eu trin wedi'u cynnwys yma.

Bydd cwynion yn y Gymraeg hefyd yn cael eu cofnodi ar feddalwedd rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn y ganolfan gyswllt, er mwyn sicrhau bod atebion yn cael eu gyrru yn Gymraeg.

## 3. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

**Adnoddau Dynol – Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Gallu Ieithyddol**

Mae'r ffurflen monitro cydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau am allu ymgeiswyr i siarad, ysgrifennu, deall a darllen Cymraeg. Bydd y wybodaeth yn cael ei chofnodi wedyn ar system Oracle yr adran adnoddau dynol.

Yn 2010, dangosodd ein harchwiliad sgiliau iaith fod gan lawer iawn o staff rywfaint o Gymraeg a bod dros 400 o staff yn medru Cymraeg sylfaenol. Roedd nifer hefyd wedi mynegi diddordeb mewn dysgu'r iaith neu wella eu sgiliau Cymraeg. Bu hyn o gymorth i ni dargedu pobl ar gyfer hyfforddiant a dod i gysylltiad â staff dwyieithog pan fydd angen amdanynt. Bydd hefyd yn helpu arweinwyr timau i gynllunio hyfforddiant.

Cewch wybodaeth fwy cyfoes yn yr archwiliad diweddaraf, a gynhaliwyd yn haf 2013.

**Caffael**

Rydym wedi adolygu canllawiau caffael y cyngor a gwella contractau cyfreithiol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i'r Cynllun Iaith. Bydd contractau allweddol yn gorfodi'r unigolion dan sylw i gydymffurfio â Chynllun Iaith y cyngor.

## 4. Sgiliau Iaith – Cymharu anghenion y gwasanaeth â'r gallu i'w diwallu

### Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle a Hyfforddiant i Godi Ymwybyddiaeth o'r Iaith

Mae sesiynau anffurfiol yn rhedeg bob wythnos ers yr hydref. Roeddynt yn cael eu cynnal bob amser cinio dydd Gwener yn y swyddfeydd dinesig ar y dechrau. Yn sgîl galw cynyddol gan staff y Gwasanaethau Cymdeithasol y mae cwrs 10 wythnos newydd ddechrau yn swyddfa'r doc lle y mae'r staff hwnnw'n gweithio.

Yn ogystal â hyn, y mae cynllun mentora ar gyfer staff yn cael ei ystyried. Er mwyn gweithredu'r cynllun, bydd yn rhaid i siaradwyr Cymraeg gytuno i gwrdd â dysgwyr yn rheolaidd i'w cefnogi a'u helpu gyda'u modiwlau.

Rydym yn gobeithio darparu cwrs gwella Cymraeg ar gyfer dysgwyr cyn i'r flwyddyn newydd o gyrsiau gychwyn ym mis Medi. Y bwriad yw lleddfu rywfaint ar y diffyg hyder a fydd gan ddysgwyr wrth geisio ailgydio yn yr arfer o siarad Cymraeg ar ôl gwyliau'r haf.

Rydym wedi cytuno i gynnal grwpiau ffocws gyda phob math o staff amrywiol nad ydynt wedi dysgu Cymraeg nac yn siarad yr iaith. Nod hyn fydd helpu tîm 'Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd' i gynnal prosiect sy'n ymchwilio i resymau pobl dros

beidio â dysgu Cymraeg. Bydd croeso i aelodau etholedig ymuno â'r gweithgareddau hyn.

## 5. Prif Ffrydio

Cynhelir asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n trafod pob nodwedd cydraddoldeb mewn perthynas â phrif bolisïau, cyllideb y cyngor a rhai swyddogaethau. Mae hyn yn helpu i ddwyn y Gymraeg i mewn i'r brif ffrwd a sicrhau ei bod yn cael ei monitro i'r un graddau â materion eraill.

Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer y Gymraeg yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan dîm Cydraddoldeb ochr yn ochr â'r cynlluniau gweithredu ar gyfer nodweddion eraill cydraddoldeb. Bydd hyn yn sicrhau bod materion felly'n brif ystyriaeth mewn datblygiadau o ddydd i ddydd.

Adolygwyd prif strategaethau'r cyngor yn ystod 2012 er mwyn sicrhau bod crynodeb ar gael yn Gymraeg. Bydd y tîm cyfathrebu'n archwilio hysbysiadau a chyhoeddiadau cyhoeddus bob blwyddyn. Ni ddaethpwyd i ben â'r archwiliad ar gyfer 2013 eto oherwydd newidiadau yn y tîm cyfathrebu.

Bydd materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu dwyn i mewn i'r brif ffrwd drwy fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Mae holl gynlluniau gwasanaeth adrannau'r cyngor yn cynnwys amcanion cydraddoldeb sy'n nodi risgiau, mesurau perfformiad a chamau gweithredu. Bydd mesurau'n cael eu hadolygu bob chwarter gan y pwyllgor craffu priodol, a bydd camau gweithredu'n cael eu hadolygu bob chwe mis yn yr un modd.

Mae tîm cydraddoldeb wedi llunio 'Cynllun Cydraddoldeb y Fro'. Cyflwynwyd y cynllun hwnnw yn 2001 a chafodd ei seilio ar Safon Gydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gyflawnwyd eisoes gan y cyngor hyd at lefel 3. Datblygwyd y Cynllun er mwyn helpu i ddwyn materion cydraddoldeb i mewn i'r brif ffrwd ac yr oedd rheolwyr pob maes gwasanaeth i fod yn gyfrifol am gydraddoldeb. Roedd disgwyl i reolwyr gyrraedd lefel 1 yn ystod y flwyddyn gyntaf a lefel yn uwch bob blwyddyn wedyn. Lefel 4 yw'r targed ar gyfer meysydd gwasanaeth perthnasol ar hyn o bryd ac y mae llawer o wasanaethau eisoes wedi taro'r targed hwnnw. Mae

iaith yn un o brif elfennau Cynllun Cydraddoldeb y Fro.  Tîm cydraddoldeb sy'n gyfrifol am ddatblygu, asesu a monitro'r Cynllun.

Mae gan y cyngor weithgor swyddogion mewnol (Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol) sy'n cyfeirio gwybodaeth at y gwahanol adrannau ac yn fforwm ar gyfer codi a thrafod problemau.  Bydd hefyd yn cynnal Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, sef un o bwyllgorau ffurfiol y cyngor sy'n cynnwys aelodau etholedig a chynrychiolwyr grwpiau cefnogi ac ymgyrchu.

## 6. Dadansoddi Perfformiad yn ôl blaenoriaeth a thargedau

Bydd y cyngor yn monitro gweithrediad y Cynllun Iaith drwy gymryd y camau hyn:

- monitro cynlluniau gweithredu'n rheolaidd;
- darparu cynllun gwella blynyddol sy'n cynnwys targedau a chrynodeb o'r hyn sydd i'w gyflawni o safbwynt gweithredu'r Cynllun Iaith;
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu llunio gan dîm Cydraddoldeb drwy ymgynghori â'r rheolwyr a'r swyddogion sy'n gweithredu'r Cynllun.  Bydd cwynion ynglŷn â gweithredu'r Cynllun yn cael eu casglu gan dîm Cydraddoldeb, ac er mai ychydig iawn sy'n dod i law fel arfer, y mae'n bwysig bod y cyngor yn cael gwybod lle y gellir gwella'r gwasanaeth.  Bydd y cyngor yn cynnal arolygon barn o bryd i'w gilydd ac yn trefnu grwpiau ffocws er mwyn ymgynghori â siaradwyr Cymraeg ynglŷn â safon y gwasanaeth Cymraeg a gynigir iddynt.

## 7. Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad

Bydd y cyngor yn casglu ac yn cyflwyno gwybodaeth am bob mesur statudol cenedlaethol sy'n cael ei ddefnyddio, ac yn gosod targedau ar ei gyfer.  Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer o ddangosyddion lleol sydd o gymorth i ni fesur ein cynnydd o safbwynt gweithredu'r Cynllun.  Mae'r wybodaeth hon ar gael yng Nghynllun Gwella a chynlluniau gwasanaethau'r cyngor sy'n cael eu cyhoeddi bob

blwyddyn ac ar gael ar ein gwefan sef www.valeofglamorgan.gov.uk neu www.bromorgannwg.gov.uk.

Yn ogystal â hyn, pan fydd y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cymeradwyo'r adroddiad hwn, bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau Cydraddoldeb gwefan y cyngor ynghyd â gwybodaeth arall am faterion iaith.

| | |
|---|---|
| • y graddau y bydd sefydliadau sy'n gweithredu ar ran y cyngor yn cydymffurfio â gofynion Cymraeg. Bydd y cyngor yn cymryd sampl o gontractau â thrydydd person er mwyn nodi unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion Cymraeg sydd wedi'u rhestru yng nghanllawiau caffael y cyngor. Caiff y wybodaeth ei chyflwyno fel canran o'r nifer yn y sampl (a hefyd fel ffracsiwn o'r nifer honno). | Rydym wedi adolygu canllawiau caffael y cyngor a gwella'r trefniadau ar gyfer contractau cyfreithiol er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth fanwl i'r Cynllun Iaith. Cafodd contract mawr ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden y cyngor ei adolygu yn Rhagfyr 2012 ac yr oedd cydymffurfiad â Chynllun Iaith y cyngor wedi'i gynnwys yn yr amodau. |
| • Gwybodaeth am staffio swyddi rheng flaen a recriwtio i'r swyddi hynny ar hyn o bryd. Swyddi yn 'swyddfa flaen' y Cyngor yw swyddi rheng flaen, a byddwn yn mesur y dangosydd hwn ar sail y swyddi hynny. Yn fwyfwy, daw'r term i olygu swyddi yng nghanolfan gyswllt UnFro. Caiff y nifer ei chyflwyno fel canran o'r rhai mewn swyddi rheng flaen (a hefyd fel ffracsiwn o'r nifer honno). | O'r 35.5 o gynrychiolwyr gwasanaeth cwsmeriaid yn y ganolfan gyswllt, chwech sy'n rhugl yn y Gymraeg - sef 17% o'r tîm. |
| • Nifer y staff sy'n dilyn hyfforddiant a'r lefel neu'r radd a gyrhaeddwyd. Byddwn yn mesur hyn ar sail nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau hyfforddi'r Cyngor. Caiff ei gyflwyno fel rhif yng nghategorïau: Mynediad a Sylfaenol; Canolradd; Uwch; Uwch a Meistroli. | 7 aelod o staff sy'n dilyn hyfforddiant Cymraeg ar hyn o bryd. (Medi 2013)<br>6 sy'n dilyn cwrs Mynediad Lefel, 1 sy'n dilyn cwrs Canolradd.<br>Bydd hyfforddiant anffurfiol hefyd bob wythnos. |
| • Nifer staff y cyngor a chanddynt sgiliau Cymraeg. Roedd y dangosydd hwnnw'n cael ei fesur yn wreiddiol yn 2010 drwy'r archwiliad Sgiliau Ieithyddol. Cynhaliwyd archwiliad arall yn 2013 ac yr oedd y canlyniad ar gael yn Ebrill 2014. | 65 o aelodau o staff sy'n 'atebol' neu'n 'rhugl' yn yr iaith ac y mae gan ryw 400 o staff sgiliau sylfaenol. Cynhaliwyd arolwg newydd ym Mehefin a Gorffennaf 2013. Bydd y wybodaeth ar gael cyn bo hir. |

| | |
|---|---|
| • Nifer y cwynion am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y dangosydd perfformiad hwn yn cael ei fesur ar sail nifer y cwynion am gynnwys neu weithrediad y Cynllun, a thîm cydraddoldeb a fydd yn gyfrifol am eu harchwilio ac am ymateb iddynt. | Cafodd y cyngor 5 o gwynion eleni. Mae rhestr ar gael. |

## 8. Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cyngor wedi llenwi'r holiadur manwl y gofynnodd y Comisiynydd Iaith amdano ac y mae'n aros am hysbysiad cydymffurfio ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau o gofnodi gweithgareddau sy'n gydnaws â'r safonau Cymraeg newydd.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â chyrff eraill fel tîm Cymraeg i Oedolion, Menter Bro Morgannwg ac ati er mwyn rhoi cyfle i staff feithrin eu sgiliau a darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr ar gyfer ein trigolion.

Fel rhan o hyn, byddwn yn cydweithio â Phrifysgol Caerdydd i weithredu cynllun mentora a fydd yn meithrin sgiliau iaith dysgwyr drwy drefnu i ddysgwyr newydd a siaradwyr Cymraeg weithio mewn parau.